

Canllawiau Ilaeth yfed amrwd

Canllawiau i fusnesau bwyd ar werthu, samplu a phrofi Ilaeth buwch amrwd, gan gynnwys gwybodaeth am dwbercwlosis a Ilaeth buwch i'w yfed yn amrwd.

Mae Ilaeth yfed amrwd i'w werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol yn gynnwys bwyd risg uchel, ac felly'n destun mesurau rheoli llymach.

Cymeradwyo a chofrestru

Os ydych chi am werthu Ilaeth yfed amrwd ac nad ydych chi eisoes wedi cofrestru fel busnes bwyd, bydd angen i chi gofrestru gyda ni.

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru ond nawr yn bwriadu dechrau gwerthu Ilaeth yfed amrwd, bydd angen i chi roi gwybod i ni o'ch bwriad i werthu.

Gallwch chi gofrestru gyda ni neu roi gwybod eich bod chi'n bwriadu gwerthu Ilaeth yfed amrwd drwy ddefnyddio'r ffurflen gais i gofrestru daliad cynhyrchu Ilaeth.

Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth arnoch chi yn ymwneud â'ch cais, gallwch chi gysylltu â ni drwy anfon e-bost at: approvals@food.gov.uk

Lloegr a Cymru

[View Cais cofrestru daliad cynhyrchu Ilaeth \(Saesneg yn unig\) as Word](#) (204 KB)

Y broses gofrestru

Dyma beth fydd yn digwydd pan fyddwn ni'n cael eich cais:

- bydd un o'n Harolygwyr Hylendid Ilaeth yn ymweld â'r daliad ac yn cynnal arolygiad. Os nad yw amodau'r daliad yn dderbyniol, bydd yr Arolygwr yn cymryd sampl o Ilaeth amrwd ac yn ei ddadansoddi dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd
- unwaith bydd y sampl wedi'i dadansoddi gyda chanlyniad boddhaol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi a'r awdurdod lleol

Cofrestru gydag awdurdodau lleol

Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r awdurdodau lleol eich bod chi'n bwriadu cynhyrchu Ilaeth buwch i'w yfed yn amrwd. Fodd bynnag, dylech chi hefyd gysylltu â'ch awdurdod lleol oherwydd efallai yr hoffent weld y broses llenwi a photelu.

Canllawiau i gynhyrchwyr Ilaeth yfed amrwd

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i ddeall eich rhwymedigaethau cyfreithiol a chymhwyso arfer gorau.

Dylech ddarllen y canllawiau ar y cyd â Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 006 a Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013.

At ddibenion y canllawiau hyn, chi yw preswlydd y daliad sy'n cadw'r anifeiliaid sy'n cynhyrchu'r llaeth.

Rydym ni'n awgrymu eich bod yn darllen ac yn deall y ddogfen hon cyn i chi ddechrau cynhyrchu llaeth yfed amrwd i'w werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol.

Cymru

[View Canllawiau llaeth yfed amrwd as PDF](#) (630.64 KB)

Hufen amrwd

Gwerthu hufen amrwd:

- nid yw'n ddarostyngedig i'r cyfyngiadau mewn daliadau cynhyrchu a safleoedd godro
- rhaid cydymffurfio â'r holl ofynion sy'n berthnasol i gynhyrchion llaeth o dan reolau hylendid llaeth a safonau microbiolegol
- rhaid ei gynhyrchu gyda llaeth sy'n bodloni meini prawf statws y fuches – gellir ond gwerthu llaeth yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gan feddianwyr daliadau cynhyrchu llaeth cofrestredig ac mae'n rhaid i laeth yfed amrwd gydymffurfio â'r rheolau hylendid llaeth a safonau microbiolegol
- nid yw'n ofynnol i hufen amrwd gynnwys y rhybudd iechyd ond mae'n rhaid arddangos y geiriau 'wedi'i wneud â llaeth amrwd' ar y cynnyrch
- caiff cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn ei monitro drwy arolygiadau seiliedig ar risg